

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 5ed o HYDREF 2020 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair), Alan Lewis, Ian Evans, Tyssul Evans, Tracey James, Linda Williams, Caroline Williams, Aled Williams, Geraint Rosser, Meic Bowen a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones a Geoff Hewitt

2441 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

2442 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 07/09/2020 fel rhai cywir.

2443 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2427 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Mae Ymgynghorwyr Cynllunio wedi eu hapwyntio gan y Cyngor Sir. Arhoswn am ymateb pellach oddiwrth y Cyngor Sir

Tud 1. Cofnod Rhif 2427- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltw'n eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2427 - Goleuadau Tai Ffoslas - Aros am ymateb oddiwrth Gwmni Persimmon.

Tud 1. Cofnod Rhif 2427 - Llwybr Treftadaeth Pontiets - Arhoswn am ymateb oddiwrth Bassett & McGregor.

Tud 1. Cofnod Rhif 2427 – Cwn stwrlyd – Mae'r mater yn nwylo'r Adran Iechyd yr Amgylchedd yn y Cyngor Sir.

Tud 2. Cofnod Rhif 2436 - Cyflymder Traffig trwy Grwbin a Llangyndeyrn - Mae'r mater yn nwylo'r Cyngor Sir.

Tud 2. Cofnod Rhif 2438 – Bwthyn Gwyn, Carwe – Mae'r mater yn nwylo'r Cyngor Sir.

Tud 2. Cofnod Rhif 2439 – Heol y Meinciau, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2444 Moreia Meinciau – Llythyr y diolch am y rhodd.

2445 Nasareth Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd..

Ceisiadau Cynllunio

2446 a) Rhif y Cais – PL/00395 – Bronawel, Pontantwn – Estyniad a Garej– Dim Gwrthwynebiad

b) Rhif y Cais - PL/00432 – Fferm Capel Dyddgen – Crwbin – Troi Bwthyn yn Ychwanegiad – Dim Gwrthwynebiad

c) Rhif y Cais – PL/00457 – Tir ar Ffordd B4309 – Stablau a Stordy – Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2447 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2448 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Medi 2020. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

- 2449** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Medi)
 - b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Medi)
 - c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Medi)
 - ch) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Medi)
 - d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Medi)
 - dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Medi)
 - e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Medi)- £187.33
 - f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Medi) - £12.64
 - ff) Torri Gwair – Mis Medi - £50.00
 - g) Ffon y Syrfêwr - £40.00
 - ng) Treuliau'r Syrfêwr- £35.00
 - h) Excel Electrics – Toiledau'r Meinciau - £96.00
 - i) Stampiau - £44.28
 - l) Zoom – System Cynadledda - £143.88

2450 Ciosg Ffon - Crwbin

Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd rhoi caniatâd i ddefnyddio'r ciosg fel Llyfrgell Cymunedol.Os bydd angen ail-baentio dylai'r lliw parhau yn goch.

2451 Cofeb Rhyfel Pontiets

Cafwyd adroddiad gan y Clerc a gohiriwyd y mater tan y cyfarfod nesaf.

2452 Ciosg Ffon – Heol y Meinciau - Pontiets

Penderfynwyd ein bod yn prynu'r Ciosg am £1 oddiwrth BT.

2453 Parc Pontiets - Sleid

Penderfynwyd atgyweirio'r Sleid yn y Parc ar frys – Amcan-bris fydd tua £85.

2454 Adran 106 – Persimmon – Carwe

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod

Penderfynwyd ar gynnig gan Aled Williams ac eiliwyd gan Tracey James ein bod yn gwneud cais trwy'r Cyngor Sir am £16799.23 o'r arian uchod i osod Panelu Solar yng Nghlwb Pêl-droed a Chriced Carwe.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2455 Parc Pontiets

Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd derbyn y cynnig brys a chynigwyd gan Linda Williams ac eiliwyd gan Heddwyn Jones :-

Ein bod ni Cyngor Cymuned Llangyndebyrn yn rhoi blaenoriaeth i adfywio Parc Pontiets yn ystod y flwyddyn. Golyga hyn roi caniatad i'r Co-op sefydlu Pwyllgor lleol i wneud gwaith ymchwil ac i weithio mewn partneriaeth gyda'r gymuned i ddatblygu Parc Pontiets. Fe fyddwn ni fel Cyngor yn cydweithio gyda'r Grwp i chwilio am grantiau ar y cyd ac yn rhoi sicrwydd y byddwn fel Cyngor yn gyfrifol am y parc ar ol i'r prosiect gael ei gwblhau.

2456 Parc Gwynfryn

Cafwyd trafodaeth ynglyn a Pharc Gwynfryn. Gobeithir y bydd y gwaith o osod yr offer newydd, a ofynnwyd amdano gan Plant Ysgol Gwynfryn, yn y Parc yn dechreu yn gynnar ym Mis Tachwedd ac ein bod yn edrych am cyhoeddusrwydd pan fydd y gwaith wedi eu cwblhau.

Cyfarfod nesaf:- 2 o Dachwedd 2020

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....